

PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1A, Neuadd Y Sir, Ruthun, Dydd Iau, 4 Ebrill 2019 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Gareth Davies, Pat Jones, Christine Marston, Melvyn Mile, Rhys Thomas, David Williams ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

Arsylwyr – Y Cynghorwyr Meirick Davies a Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (JG), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

Cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (ar gyfer eitemau 5 a 6) – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol – Therapiau (Gareth Evans) a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymunedol (Alison Kemp)

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Hugh Irving ac Andrew Thomas
Y Cynghorydd Bobby Feeley (Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth)
Nicola Stubbins – Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Gareth Davies gysylltiad personol ag eitemau 5 a 6 gan ei fod yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu. Partneriaethau a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2019 eu cyflwyno.

Materion yn Codi – Tudalen 9, Eitem 5 Darpariaeth Gorfodaeth Amgylcheddol – Dywedodd y Cadeirydd bod dolen i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet fis Medi 2018 ar y 'Dewisiadau ar gyfer Gorfodi Rhag Troseddau Amgylcheddol' wedi'i chynnwys ym Mriff Gwybodaeth y Pwyllgor (a gylchredwyd ymlaen llaw).

PENDERFYNWYD *derbyn a chadarnhau cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2019 fel cofnod cywir.*

5 YSBYTY DINBYCH

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol – Therapiau a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r cyfarfod i drafod dyfodol y gwasanaethau yn Ysbyty Dinbych. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Gyfarwyddwr Rhanbarth: Canol BIPBC (Bethan Jones).

Wrth roi'r cyflwyniad darparodd Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymunedol y Bwrdd Iechyd drosolwg bras o gefndir cau'r ward yn Ysbyty Dinbych, gan gynnwys gwybodaeth am yr archwiliadau a'r arolygon tân manwl, a'r canlyniadau a arweiniodd at gomisiynu gwaith i ganfod y costau a'r raddfa amser ar gyfer gwneud y ward yn addas i'r diben eto. Nododd y gwaith hwn wyth dewis posibl ar gyfer dyfodol y gwasanaethau yn yr ysbyty. Sef:

- Ailwampio'r llawr gwaelod a'r llawr cyntaf i ddarparu 14 gwely, a fydd yn costio rhwng £10 ac £11 miliwn ac yn cymryd oddeutu 3 blynedd
- Dymchwel ac ailgodi'r llawr gwaelod a'r llawr cyntaf i ddarparu 16 gwely, a fydd yn costio rhwng £11 ac £12 miliwn ac yn cymryd oddeutu 3 blynedd
- Symud yr Adran Ffisiotherapi i ran arall o'r ysbyty er mwyn creu 4 bae gwely, a fydd yn costio rhwng £1.2 ac £1.4 miliwn ac yn cymryd oddeutu dwy flynedd
- Codi ward 5 gwely newydd rhwng yr Ystafelloedd MacMillan ac adeilad y clinig, a fydd yn costio rhwng £1.2 ac £1.3 miliwn ac yn cymryd oddeutu 2 flynedd
- Codi ward 6 gwely newydd, a fydd yn costio rhwng £4.5 a £5 miliwn ac yn cymryd oddeutu 3 blynedd
- Dymchwel y gegin a'r ward uchod a chreu ward 6 gwely newydd, a fydd yn costio rhwng £3.5 a £4 miliwn ac yn cymryd oddeutu 3 blynedd
- Addasu'r ystafell wydr wrth ymyl y ward MacMillan yn uned un ystafell wely heb ystafell ymolchi, a fydd yn costio oddeutu £100,000 ac yn cymryd oddeutu 12 mis
- Symud yr ystafell mamolaeth i'r llawr gwaelod, a fydd yn costio rhwng £350,000 a £400,000 ac yn cymryd oddeutu 12 mis

Mae'r dewisiadau hyn yn destun gwaith pellach.

Os gwneir penderfyniad, yn dilyn dadansoddiad manwl o'r dewisiadau, i ail-ddarparu'r ward cyfan yna byddai angen cau'r ysbyty i gyd er mwyn ymgymryd â'r gwaith. I sicrhau bod digon o wlâu cymunedol yn yr ardal yn ystod cyfnod y gwaith adeiladu, ni fydd modd cychwyn y gwaith tan y bydd Ysbyty Gogledd Sir Ddinbych wedi agor. Serch hynny, byddai modd ymgymryd â rhywfaint o waith ar y safle yn y cyfamser. Mae cynghorwyr sir lleol a Chynghrair Cyfeillion yr Ysbyty yn awyddus i sicrhau nad yw'r ward yn wag yn y cyfamser oherwydd y byddai hynny yn lleadaenu'r neges anghywir o ran dyfodol y safle. Felly, mae'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Sir wedi cytuno i leoli aelodau o dîm Adnoddau Cymunedol Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Cyd Ardal Dinbych ar Ward Lleweni tan y bydd unrhyw waith ailwampio yn barod i'w wneud. Byddai'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn symud i rywle arall cyn i'r gwaith ddechrau.

Dyweddod Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Cymunedol bod swyddogion y Bwrdd Iechyd wedi cwrdd â Grŵp Ardal Aelodau Dinbych yn ddiweddar i drafod dyfodol yr ysbyty. Yn ystod y cyfarfod gofynnodd yr aelodau i'r Bwrdd Iechyd ystyried dewisiadau ehangach ar gyfer y safle gyda Chyngor Sir Ddinbych a sefydliadau partner eraill. Ers y cyfarfod hwnnw mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i sicrhau rhywfaint o gyllid y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer gwaith ymchwil i fapio gweledigaeth ar y cyd ar gyfer gwasanaethau iechyd, lles a gofal cymdeithasol integredig yn ardal Dinbych.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau, gwnaethpwyd y sylwadau canlynol gan gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd –

- Mae ystyriaeth wedi'i roi, pan gaewyd Ward Lleweni, i'r posibilrwydd o ail-ddarparu gwllâu ar sail dros dro mewn unedau symudol arbenigol. Oherwydd nad oes llawer o le ar y safle, a'r angen i barhau i ddarparu gwasanaethau eraill yn yr ysbyty, nid yw ail-ddarparu gwllâu mewn unedau symudol yn addas. Os penderfynir dymchwel ac ailgodi wardiau'r llawr gwaelod a chyntaf, ni fyddai'n briodol ceisio darparu gwasanaethau cleifion mewnol yr ysbyty mewn unedau symudol ar safle a fyddai'n safle adeiladu. Yn ogystal, byddai ar wardiau/cleifion mewnol angen mynediad hawdd at wasanaethau ategol, ond ni fyddai hynny'n bosibl os ydynt ar safle adeiladu.
- Byddai gan y Bwrdd Iechyd fwy o drosoledd i sicrhau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu safle Ysbyty Dinbych petai unrhyw brosiect arfaethedig yn fenter ar y cyd gyda'r awdurdod lleol at ddibenion darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles integredig. Petai'r cynnig yn golygu ailwampio'r adeilad presennol, yna byddai'r Bwrdd Iechyd yn llai tebygol o sicrhau cyllid Llywodraeth Cymru ac felly yn gorfod cwrdd â'r costau yn defnyddio'i gyllideb ei hun. Mae Cyngor Sir Ddinbych a Grŵp Cynefin yn rhan o'r trafodaethau hyn, gyda'r golwg o ddatblygu gweledigaeth iechyd a gofal ar gyfer Dinbych fel sail i lunio achos busnes cadarn i ymgeisio am gyllid Llywodraeth Cymru. Byddai arian grant y Gronfa Gofal Integredig yn helpu i hwyluso gwaith ymchwil yn ogystal â gwaith gyda'r gymuned ehangach i benderfynu ar weledigaeth ar gyfer yr ardal a'r cyfleusterau sydd eu hangen i ddarparu'r weledigaeth honno.
- Mae'r Bwrdd Iechyd, hyd yma, wedi sicrhau cyllid grant ar gyfer datblygiadau gofal iechyd yn y Rhyl, Corwen a Phrestatyn, a'u bod rŵan yn canolbwyntio ar ardal Dinbych.
- Yn dilyn tân Tŵr Grenfell, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo pob Bwrdd Iechyd i archwilio'r holl gyfleusterau cleifion mewnol sydd ag uchder mwy nag unllawr. Yr archwiliad manwl hwn, yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru, sydd wedi gwneud ward llawr cyntaf yr ysbyty yn anaddas ar gyfer cleifion – oherwydd y dull gwagio pan fo argyfwng. Yn unol â gofynion Deddf Tân ac Achub 2005 roedd gan yr ysbyty gynllun gwagio pan fo tân a oedd yn cynnwys cynllun gwagio llorweddol ar gyfer ward y llawr cyntaf. Er bod y cynllun hwn, yn y blynyddoedd diwethaf, wedi'i gefnogi gan bob arolygwr diogelwch tân, arolygwyr y Bwrdd Iechyd a'r rheiny a gyflogir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, nid yw'n bodloni gofynion y canllawiau newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dilyn trychineb Tŵr Grenfell. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddarparu ei

wasanaethau mewn adeiladau sy'n cyrraedd safonau diogelwch Llywodraeth Cymru.

- Yn sgil yr arolwg cyntaf o'r adeilad, yn ystod haf 2017, gwelwyd bod y diffyg dulliau ynysu tân ar ward y llawr cyntaf yn risg ac felly bu'n rhaid tynnu 10 gwely (2 fae 5 gwely).

Daeth yr arolwg hwn i'r casgliad bod yn rhaid i'r 7 gwely sy'n weddill gael eu defnyddio gan bobl sy'n medru cerdded allan o'r adeilad petai angen ei wagio. Fodd bynnag, mae arolwg manylach wedi gwneud y gwlâu hyn yn annioegel pan fo tân ac felly mae'r ward cyfan wedi'i gau ar gyfer cleifion mewnol.

- Roedd 10 i 12 merch y flwyddyn yn defnyddio gwasanaethau mamolaeth Ysbyty Dinbych pan gafodd ei agor.

Mae'r gwasanaethau sydd ar gael yno yn debyg iawn i'r rheiny a ddarperir i ferched beichiog sy'n geni gartref. Er y byddai modd ystyried a ddylid parhau â'r gwasanaeth hwn neu beidio fel rhan o ddatblygiad y safle, mae'n bwysig cofio bod bwrsari addysgol ar gael i fyfyrwyr sydd wedi'u geni yn yr ysbyty.

- Maent awyddus i weithio gyda'r awdurdod lleol, Grŵp Cynefin a 4 meddygfa'r dref i ddatblygu gweledigaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles gyfannol ar gyfer y dref gyda gwasanaethau ar gael mewn cyfleuster hygyrch ac yng nghartrefi preswylwyr er mwyn cefnogi annibyniaeth a gwella gwytnwch.

- Nid yw'r ysbyty, er ei fod yn un o'r ysbytai hynaf yng Nghymru, yn adeilad rhestredig ar hyn o bryd.

- Mae staff Stadau'r Gwasanaeth iechyd wedi archwilio nifer o atebion strwythurol posibl i ailagor y ward i fyny'r grisiau.

Yr unig ddewis hyfyw yw tynnu llawr pren y ward a gosod llawr concriid. Fodd bynnag, oherwydd oed a ffabrig yr adeilad mae'n annhebygol y byddai sylfeini presennol yr adeilad yn ddigon cryf i ddal llawr concriid. O ganlyniad, mae'r cynigion amlinellol presennol ar gyfer ailwampio'r adeilad yn cynnwys codi ffrâm ddu fel rhan o'r cynllun buddsoddi cyfalaf.

- Mae'n anghenion gofal iechyd cymunedol ardal Dinbych yn wahanol i anghenion gogledd y sir, gan fod demograffeg yr ardal leol yn wahanol.

Mae preswylwyr canol y sir yn fwy tebygol o fod â chefnogaeth teulu.

- Er y byddai'n rhaid i unrhyw brosiect mawr i ailddatblygu'r safle cyfan ddilyn gweithdrefn dri cham prosiectau cyfalaf Llywodraeth Cymru, rhagwelir, yn achos yr ysbyty, na fyddai'r broses hon mor hir â phroses Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych oherwydd bod y weledigaeth ar gyfer Dinbych eisoes yn un cydweithredol ac y dylai'r gwersi a ddysgwyd yn sgil prosiect Gogledd Sir Ddinbych helpu datblygiad achos busnes Ysbyty Dinbych.

Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol y Cyngor bod yr awdurdod lleol yn ymwybodol y byddai mwy o alw yn yr ardal yn y dyfodol am elfennau o ofal nyrsio yn ogystal â gofal dementia arbenigol – gartref ac mewn lleoliad preswyl/cartref nyrsio. Felly mae'r Cyngor yn awyddus i weithio gyda'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid i sicrhau gwasanaethau addas i'r diben ar gyfer preswylwyr. Ar ddiwedd y drafodaeth –

PENDERFYNWYD –

- (a) *Derbyn yr wybodaeth a'r cyflwyniad ar y gwaith hyd yma o ran dyfodol darpariaeth gwasanaethau Ysbyty Dinbych;*

- (b) *Cefnogi'r ymdrechion i ddatblygu gweledigaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar gyfer ardal Dinbych; a*
- (c) *Derbyn diweddariadau ar gynnydd y weledigaeth a'r achosion busnes i'w gwireddu.*

6 YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AR BROSIECTAU CYFALAF Y BWRDD IECHYD

Gwahoddwyd cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r cyfarfod i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraaf i'r Pwyllgor ar gynnydd prosiectau cyfalaf yn Sir Ddinbych.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol – Therapiau gyflwyniad ar gynnydd y gwaith i ddatblygu Campws Iechyd a Lles ar gyfer gogledd Sir Ddinbych ar ac o gwmpas safle'r hen Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol y Bwrdd Iechyd ar gyfer y campws ym mis Ionawr 2019 a bod y Bwrdd bellach yn cymryd y camau terfynol i ddatblygu Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect. Mae hyn yn cynnwys gwirio cadernid a threfniadau dylunio a thendro'r adeilad a'r modelau gwasanaeth; gyda'r bwriad o gyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru erbyn mis Mawrth 2020. Yn ystod y cyflwyniad disgrifiodd y model arfaethedig ar gyfer gwasanaethau a'i fudd i'r ardal a'i phreswylwyr, sef –

- Gwaith integredig rhwng gofal sylfaenol a chymunedol i gefnogi gofal brys / yr un diwrnod, a fyddai'n lleihau'r galw ar Adran Frys Ysbyty Glan Clwyd
- Rhoi'r gallu i bractisiau clwstwr reoli'r galw am ofal sylfaenol
- Cynyddu'r ddarpariaeth sydd ar gael ar ôl 5pm yn yr ardal
- Gwella'r cydweithio rhwng partneriaid iechyd, yr awdurdod lleol, y trydydd sector a'r gymuned drwy wneud y mwyaf o'r adnoddau ac integreiddio a chydleoli timau amlasiantaeth neu amlbroffesiwn a gwella'r broses o recriwtio a chadw staff
- Campws iechyd a lles ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain sy'n darparu ystod o lwybrau gofal, o hunanreoli i wla'u gofal cleifion mewnol
- Gwasanaethau addysg, gwybodaeth ac atal
- Ystod o wasanaethau cleifion allanol symudol gyda phwyslais ar ofal yn agosach at y cartref a darparu profiad gwell i'r cleifion a lleihau nifer y trosglwyddiadau i'r ysbyty cyffredinol dosbarth
- Dull integredig i gwrdd ag anghenion corfforol ac iechyd meddwl pobl hŷn, gyda golwg ar leihau'r effaith ar wardiau Ysbyty Glan Clwyd a phwyslais ar adferiad ac ailalluogi i gynorthwyo annibyniaeth a lleihau'r angen am ofal mwy sefydliadol
- Cadw ac ailwampio adeilad gwreiddiol Ysbyty Brenhinol Alexandra
Er bod hyn wedi cynyddu costau'r prosiect ac yn gymhleth, roedd ei gynnwys yn y cynlluniau yn cydnabod pwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol yr adeilad i'r dref. O'r £40 miliwn sydd wedi'i ddyfarnu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r campws cyfan, bydd oddeutu £7 i £8 miliwn yn cael ei wario ar yr adeilad gwreiddiol i osod systemau gwresogi a thrydanol newydd, i adfer y tu allan ac i ailwampio rhywfaint o'r tu mewn i wneud lle i staff cymorth a thimau amlasiantaeth megis y Gwasanaethau Un Pwynt Mynediad a'r Gwasanaethau Iechyd Meddal Plant a'r Glasoed (CAMHS). Mae statws rhestredig yr adeilad yn

cyfyngu ar y dewisiadau ar gyfer gwaith ailwampio mawr i ddarparu gwasanaeth gofal iechyd modern yn yr adeilad.

Bydd y campws newydd yn canolbwyntio ar ddarparu'r canlynol –

- Canolfan ofal yr un diwrnod
- Clinigau cleifion allanol
- Gwlâu cleifion mewnol
- Ystafell therapi mewnythiennol (ystafell IV)
- Diagnosteg
- Gwasanaethau therapi
- Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol
- Gwasanaethau Iechyd Rhywiol
- Gwasanaeth Cleifion Allanol Iechyd Meddwl Pobl Hŷn
- Canolfan gymunedol sy'n cynnwys caffi, darpariaeth trydydd sector ac ystafelloedd cyfarfod i gefnogi'r gymuned leol

Cynigiwyd y dylai'r Bwrdd Prosiect ailffurfio yn y dyfodol agos i fwrw ymlaen â'r achos busnes terfynol a'i fireinio yn barod ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fis Mawrth 2020, gyda'r gobaith y bydd yn cael ei gymeradwyo fis Mehefin 2020 er mwyn agor yr adeilad newydd fis Ebrill 2022 a gorffen ailwampio'r hen ysbyty cyn diwedd 2022.

Dyma ymateb cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd i gwestiynau'r aelodau –

- Bydd yr achos busnes terfynol ar gyfer yr ysbyty yn cynnwys y gofynion o ran y gweithlu a'r staffio
Gan nad yw'r cyfleuster yn agor tan 2022 mae cyfle rŵan i'r Bwrdd Iechyd gynllunio'r gweithlu yn effeithiol a sicrhau bod ganddo staff gyda'r cymwysterau priodol ar y campws pan gaiff ei agor. Mae gwaith y Bwrdd Iechyd wrth gynllunio'r gweithlu yn cyd-fynd â'r gwaith cynllunio gweithlu cenedlaethol ar gyfer staff gwasanaeth iechyd. O'r 60 aelod o staff llawn amser fydd ei angen i weithredu'r campws newydd, bydd 25% yn staff anfeddygol.
- Rhagwelir y bydd pobl leol yn llenwi nifer o swyddi'r campws, a staff sydd wedi'u hadleoli i Ysbyty Cymuned Treffynnon ar ôl cau gwasanaethau cleifion mewnol Ysbyty Brenhinol Alexandra yn llenwi'r swyddi eraill.
Yr her fydd llenwi'r swyddi proffesiynol a chymwysedig. Fodd bynnag, dylai ymgyrchoedd cynllunio gweithlu a recriwtio effeithiol sicrhau bod y swyddi hyn wedi'u llenwi erbyn agor y cyfleuster. Bydd bodolaeth y prosiect i ddarparu'r cyfleuster yn dylanwadu ar nifer y lleoedd hyfforddi fydd ar gael ar gyfer y disgyblaethau amrywiol sydd eu hangen.
- Mae prinder staff cymwys mewn swyddi iechyd proffesiynol yn broblem genedlaethol a rhyngwladol, nid un i ogledd Cymru yn unig.
Adolygir y sefyllfa yn barhaus, gyda'r bwriad o farchnata'r amgylchedd a'r addysg leol yn effeithiol er mwyn denu pobl gymwys i weithio yn yr ardal. Mae gwaith hefyd ar y gweill gyda phartneriaid, gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, i geisio diogelu tai lleol i weithwyr iechyd allu cerdded/beicio i'w gwaith. Yn ardal y Rhyl, rhagwelir y bydd y dull hwn yn cefnogi'r gwaith adfywio sy'n mynd rhagddo.

- Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gydag ysgolion meddygol gogledd orllewin Lloegr i geisio denu myfyrwyr o'r sefydliadau hynny i ystyried ymarfer yng ngogledd Cymru ar ôl iddynt gymhwyso.
- Bydd yr Achos Busnes Terfynol yn cynnwys cronfeydd wrth gefn i gwrdd â chostau cynyddol posibl e.e. chwyddiant.
- Mae prosiectau cyfalaf mawr o'r fath yn destun proses cynllunio busnes estynedig cyn y mae modd eu darparu.
Mae'n rhaid iddynt ddilyn proses dri cham sydd wedi'i gosod gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, fel yn achos pob prosiect adeiladu arall mae'n rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â phroses yr awdurdod cynllunio lleol i dderbyn caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladau newydd ac ati. Cymhlethdod pellach yn yr achos penodol hwn yw bodolaeth yr adeilad rhestredig gwreiddiol a'r angen i'w warchod. Mae hyn, ynghyd â'r cyfnod ers gau'r wardiau, wedi golygu bod cost y prosiect wedi codi o'r amcangyfrif gwreiddiol o £22 miliwn i £40 miliwn.
- Cadarnhawyd bod swm sylweddol o arian wedi'i fuddsoddi yn ystod y blynyddoedd diweddar i ariannu cyfleodd addysgol a lleoedd gwaith ar gyfer myfyrwyr meddygol yng ngogledd Cymru, fodd bynnag nid yw poblogaeth yr ardal yn ddigon mawr i gynnal y datblygiad o ysgol feddygol yn yr ardal.
- Cydnabuwyd fod cyfleusterau parcio ceir yn broblem barhaol yn y rhan fwyaf o gyfleusterau gofal iechyd.
I geisio lleddfu'r pwysau ar gampws Gogledd Sir Ddinbych, mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynllun 'cludiant gwyrdd' ar gyfer y cyfleuster, mae'r safle hefyd yn cynnwys cysylltiadau cludiant cyhoeddus da a cheir nifer o feysydd parcio o fewn tafliad carreg a manau parcio ar y stryd. Yn ogystal, fel rhan o'r broses i gyflwyno cais cynllunio, bydd y Bwrdd yn edrych ar ddad-fabwysiadu Ffordd Alexandra sydd, i bob pwrpas, yn rhannu'r safle'n ddwy ran. Os caniateir hyn byddai ardal y ffordd yn cynyddu nifer y manau parcio ar y safle.
- Cadarnhawyd y bydd y cyfleuster newydd yn adeilad neis, croesawus ac addas i'r diben, ond na fyddai'n cynnwys unrhyw addurn na nodwedd ddiangen.
Bydd y Bwrdd Iechyd yn cadw'r capel yn yr adeilad gwreiddiol, sy'n adeilad rhestredig.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar y cynnydd hyd yma o ran y prosiect cyfalaf arfaethedig i ail-ddarparu gwasanaethau sydd ar hyn o bryd ar gael yn y clinig iechyd ar Mount Street, Rhuthun.

Yn 2016 amlygodd Adolygiad Stadau sylfaenol nad yw'r cyfleuster hwn yn addas i'r diben oherwydd ei gyflwr gwael. Er bod ystyriaeth wedi'i rhoi i ymgymryd ag ychydig o waith ailwampio, oherwydd cyflwr gwael a ffabrig cyfyngedig o ran amser yr adeilad, penderfynwyd fod angen ateb tymor canolig i'r hirdymor i ddarparu'r gwasanaethau sydd ar gael yno. Ddechrau 2017 cadarnhaodd Llywodraeth Cymru bod £1.7 miliwn ar gael tuag at drosglwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael yn y clinig hwn i leoliad arall yn y dref, yn amodol ar ddatblygu achos busnes ar gyfer y prosiect. Mae'r cynigion ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn yn Rhuthun yn cydfynd â chyfeiriad strategol a gweledigaeth y Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned, yn agosach at gartrefi cleifion.

Gan fod y prosiect hwn yn llawer llai na'r rheiny yng ngogledd Sir Ddinbych a Dinbych, byddai'n cynnwys proses achos busnes un cam i'r Bwrdd Iechyd gael mynediad at y cyllid cyfalaf sydd ar gael. Y dewis a ffafrir gan y Bwrdd Iechyd a'i

bartneriaid ar gyfer darparu'r gwasanaethau sydd ar hyn o bryd ar gael yn y clinig, yw symud y rhan fwyaf o'r gwasanaethau i Ysbyty Cymuned Rhuthun. Mae'r gwasanaethau dan ystyriaeth yn cynnwys y meddyg teulu, ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol a'r tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Mae'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn ystyried dau ddewis – symud i safle'r Ysbyty Cymuned neu ddefnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt yng Nghorwen a Dinbych yn ogystal â darparu gwasanaeth teithiol ar gyfer ardal Rhuthun. Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn edrych ar ddewisiadau i rannu cyfleuster yn y dref gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, arfer sydd wedi'i mabwysiadu mewn mannau eraill yn y gogledd. Mae'r Gwasanaeth Ambiwlans yn ffafrio'r dewis hwn gan nad yw'r mynediad o'r Ysbyty Cymuned yn ddigon addas pan fo angen ymateb i achos brys. Byddai achos busnes y prosiect hwn hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer defnyddio'r cyfleuster fel canolfan i ddarparu gweithgareddau gofal eilaidd a chymunedol, gweithgareddau lles ac i gynnal hyfforddiant i feddygon teulu gwledig.

Mae nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithdai wedi'u cynnal fel rhan o ddatblygiad y prosiect. Yn ogystal, mae Aseiad o'r Effaith ar Iechyd wedi'i gynnal ac mae cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd wedi cwrdd â'r Cyngor Iechyd Cymuned i drafod a oes angen ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynigion. Mae timau dylunio'r Stadau Iechyd wedi cwblhau eu dyluniadau llety a gwasanaeth, ac mae'r rhain yn cael eu costio yn barod ar gyfer y broses dendro fis Ebrill 2019. Dylai bod y costau cychwynnol ar gael fis Mai 2019, er mwyn llunio'r achos busnes terfynol a'i gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd fis Gorffennaf 2019, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyaeth ym mis Medi 2019. Os cedwir at holl raddfeydd amser yr achos busnes ac os derbynnir cymeradwyaeth, yna rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu ar safle'r ysbyty yn cychwyn yn ystod gaeaf 2019/20, gyda'r gwasanaethau yn cael eu trosglwyddo o'r clinig yn ystod gaeaf 2020.

Dyma ymateb cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd i gwestiynau'r aelodau –

- Nod Strategaeth Stadau arfaethedig y Bwrdd Iechyd, 'Byw'n Iach, Aros yn Iach', yw sicrhau bod adeiladu'r Bwrdd Iechyd yn addas i'r diben ac yn darparu amgylchedd diogel ac effeithiol i gwrdd ag anghenion clinigol a busnes. Yn yr hirdymor byddai'r strategaeth yn rhoi cyfle i'r Bwrdd ddileu gwaith cynnal a chadw sylweddol a chymedrol sy'n ôl-gronni.
- Cadarnhawyd y bydd safle'r clinig, ar ôl ei wagio a'i ddymchwel, yn ffurfio rhan o'r cytundeb trosglwyddo asedau gyda'r Cyngor, a fydd hefyd yn cynnwys trosglwyddo safle'r hen ysgol wrth ymyl yr Ysbyty Cymuned i'r Bwrdd Iechyd er mwyn estyn maes parcio'r ysbyty.
- Dywedwyd y bydd yr achos busnes sy'n cael ei lunio yn un cadarn. Byddai'n cynnwys cost paratoi'r tir sy'n ffurfio rhan o safle'r hen ysgol i greu cyfleusterau parcio yn ogystal â chost datblygu gwasanaethau gofal sylfaenol ar safle'r ysbyty.

Ar ddiwedd y drafodaeth croesawodd y Pwyllgor y datblygiadau arfaethedig yn Rhuthun a –

PENDERFYNWYD derbyn y cyflwyniadau a gofyn am ddiweddariadau ar ddatblygiadau prosiectau cyfalaf Gogledd Sir Ddinbych a Rhuthun cyn diwedd y flwyddyn galendr.

Yn y fan hon (11.45 a.m.) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Yn ystod y drafodaeth –

- Dywedwyd fod cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 23 Mai, sef diwrnod Etholiadau Senedd Ewrop, ac felly bydd yn rhaid aildrefnu'r cyfarfod os oes etholiad i fod yn y DU.
- Cadarnhawyd eitemau rhaglen cyfarfod mis Mai a chytunwyd i wahodd yr Aelodau Cabinet perthnasol i'r cyfarfod; hefyd, cadarnhawyd y bydd cynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bresennol ar gyfer yr eitem ar Wasanaethau Iechyd Meddal Plant a'r Glasoed (CAMHS).
- Gofynnodd y Cydlynnydd Craffu bod ffurflenni cynigion aelodau ar destunau craffu posibl yn cael eu cyflwyno wythnos cyn cyfarfod nesaf Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu ar 25 Ebrill – awgrymwyd y dylid gwahodd yr Heddlu i gyfarfod craffu er mwyn trafod plismona yn y sir a chytunodd y Cynghorydd Gareth Davies i gyflwyno ffurflen gynnig mewn perthynas â hynny.
- Cadarnhawyd y byddai diweddariad ar Ysbyty Dinbych a phrosiectau cyfalaf eraill y Bwrdd Iechyd, fel y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor dan eitemau rhaglen blaenorol, yn cael eu hychwanegu at y rhaglen waith ar gyfer mis Rhagfyr.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y mae yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Adroddodd y Cynghorydd Rhys Thomas ar Herio Gwasanaeth Addysg a Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd y diwrnod blaenorol. Dywedodd fod y cyfarfod yn un da gyda llawer o gwestiynau craff. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y gyllideb, plant sy'n derbyn gofal a chyfrifoldebau rhianta'r Cyngor, materion diogelu a lleoedd ysgolion. Bydd cofnodion manylach y cyfarfod yn cael eu hanfon at aelodau yn y modd arferol. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Joan Butterfield, cadarnhaodd y Cynghorydd Thomas bod y gofyniad i ysgolion wneud arbedion o 2% wedi'i drafod yn y cyfarfod trywydd ymholi a bod y cyfarfod herio yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfrifoldebau'r gwasanaeth. Dywedodd y Prif Weithredwr fod sicrwydd wedi'i roi o ran rheolaeth ariannol gadarn cyllidebau ysgolion a bod cynlluniau adfer ariannol yn eu lle ar gyfer yr ysgolion hynny mewn diffyg ariannol.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad ar lafar.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.12 p.m.